## CYNLLUN MARCIO LLAFAREDD A DARLLEN (Sylfaen ac Uwch) – UNED 3

### Llafar – Gwaith Pâr / Grŵp

AA1

| Marc | Cynnwys | Mynegiant | Marc |
|---|---|---|---|
| 19-20 | • Amrywiaeth eang ac aeddfed o ran syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau gan gynhyrchu cyfraniadau estynedig lle'n briodol.<br>• Holi ac ateb yn hyderus iawn.<br>• Mynegi barn yn hyderus iawn gan ymresymu'n berthnasol, ac yn barod iawn i gynnal dadl.<br>• Ymateb i gyfraniadau eraill yn llawn trwy gytuno/anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau.<br>• Cyd-adweithio ag eraill yn hyderus iawn. | • Cyfathrebu'n hyderus iawn.<br>• Geirfa eang a chyfoethog.<br>• Defnyddio ystod eang ac amrywiol o gwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio ymadroddion a phriod ddulliau Cymraeg yn gyson gywir.<br>• Defnyddio amrywiaeth o ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.<br>• Elfen gref iawn o gywirdeb.<br>• Ynganu'n glir ac yn gywir iawn. | 19-20 |
| 17-18 | • Amrywiaeth eang o ran syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth gan gynhyrchu cyfraniadau eithaf estynedig weithiau.<br>• Holi ac ateb yn hyderus.<br>• Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol wrth gynnal dadl.<br>• Ymateb i gyfraniadau eraill yn ddeallus wrth gytuno/anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau.<br>• Cyd-adweithio ag eraill yn hyderus. | • Cyfathrebu'n hyderus.<br>• Geirfa eang.<br>• Defnyddio ystod amrywiol o gwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio ymadroddion Cymraeg yn rheolaidd gywir.<br>• Defnyddio amrywiaeth o ffurfiau berfol cywir (amser a pherson) yn eithaf rheolaidd.<br>• Elfen gref o gywirdeb.<br>• Ynganu'n glir ac yn gywir. | 17-18 |
| 15-16 | • Diddorol o ran syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth yn ddigon hyderus.<br>• Holi ac ateb yn eithaf hyderus.<br>• Yn barod iawn i fynegi barn gan roi rhesymau dilys.<br>• Ymateb i gyfraniadau eraill yn ystyrlon wrth gytuno/anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau.<br>• Cyd-adweithio'n dda iawn ag eraill. | • Cyfathrebu'n rhwydd.<br>• Geirfa dda iawn.<br>• Defnyddio ystod o gwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio ymadroddion Cymraeg yn gywir.<br>• Defnyddio amrywiaeth o ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan.<br>• Iaith yn gywir iawn ar y cyfan.<br>• Ynganu'n glir ac yn gywir ar y cyfan. | 15-16 |

| Marc | Cynnwys | Mynegiant | Marc |
|---|---|---|---|
| 12-14 | • Digonol o ran syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol.<br>• Holi ac ateb yn effeithiol.<br>• Yn barod i fynegi barn gan roi rhesymau digonol.<br>• Ymateb i gyfraniadau eraill yn ddigon ystyrlon gan gytuno/anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau.<br>• Cyd-adweithio'n dda ag eraill. | • Cyfathrebu'n rhwydd ar y cyfan.<br>• Geirfa dda.<br>• Defnyddio amrywiaeth o gwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio ymadroddion Cymraeg yn gywir ar y cyfan.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir.<br>• Iaith yn gywir ar y cyfan.<br>• Ynganu'n glir ac yn gywir fel arfer. | 12-14 |
| 9-11 | • Digonol o ran syniadau a barn, ond braidd yn ddifflach.<br>• Cyflwyno gwybodaeth yn ddigon effeithiol ar y cyfan.<br>• Holi ac ateb yn eithaf effeithiol.<br>• Mynegi barn yn effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan.<br>• Ymateb i gyfraniadau eraill gan gytuno/anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau weithiau.<br>• Cyd-adweithio'n dda ag eraill weithiau. | • Cyfathrebu'n eithaf rhwydd ar y cyfan.<br>• Geirfa eithaf da.<br>• Defnyddio rhai cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio rhai ymadroddion Cymraeg yn gywir.<br>• Defnyddio rhai ffurfiau berfol (amser a pherson).<br>• Iaith yn weddol gywir ar y cyfan.<br>• Ynganu'n ddigon clir a chywir. | 9-11 |
| 7-8 | • Arwynebol o ran syniadau a barn gan gadw at y disgwyliadwy.<br>• Cyflwyno gwybodaeth ar bwnc cyfarwydd yn ddigon effeithiol.<br>• Gofyn rhai cwestiynau ac yn ymateb.<br>• Mynegi barn yn eithaf effeithiol gan roi rhesymau syml.<br>• Ymateb yn syml i gyfraniadau eraill gan gytuno/anghytuno.<br>• Cyd-adweithio ag eraill ar lefel sylfaenol yn unig. | • Cyfathrebu'n ddealladwy.<br>• Geirfa ddisgwyliadwy.<br>• Defnyddio ambell gwestiwn a phatrwm brawddegol.<br>• Defnyddio ymadroddion Cymraeg ond camgymeriadau amlwg.<br>• Ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (amser a pherson). Dibynnu'n ormodol ar y presennol.<br>• Iaith yn weddol gywir ond camgymeriadau amlwg.<br>• Ynganu'n glir weithiau. | 7-8 |

| **Marc** | **Cynnwys** | **Mynegiant** | **Marc** |
|---|---|---|---|
| 5-6 | • Arwynebol iawn o ran syniadau a barn.<br>• Cyflwyno gwybodaeth syml ar bwnc cyfarwydd.<br>• Gofyn rhai cwestiynau disgwyliadwy ac ymateb yn syml.<br>• Mynegi barn syml gan roi rhesymau syml.<br>• Ymateb i gyfraniadau eraill yn syml.<br>• Cyd-adweithio ag eraill ar lefel sylfaenol iawn. | • Cyfathrebu'n ddealladwy ond petrusgar a herciog iawn.<br>• Geirfa gyfyng a defnyddio'r Saesneg yn aml.<br>• Defnydd cyfyngedig o gwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnydd cyfyngedig o ymadroddion Cymraeg.<br>• Ansicrwydd amlwg gyda ffurfiau berfol (amser a pherson).<br>• Iaith elfennol.<br>• Ynganu'n ddealladwy i wrandäwr cydymdeimladol. | 5-6 |
| 3-4 | • Ychydig iawn o gynnwys, syniadau a barn.<br>• Gwneud peth ymdrech i gyflwyno gwybodaeth elfennol iawn.<br>• Gofyn ambell gwestiwn syml ac ateb yn syml iawn.<br>• Mynegi barn syml iawn heb resymau.<br>• Ychydig iawn o ymateb i gyfraniadau eraill.<br>• Anhawster i gyd-adweithio ag eraill. | • Cyfathrebu'n ddealladwy weithiau i wrandäwr cydymdeimladol.<br>• Geirfa gyfyng iawn gyda defnydd eang o'r Saesneg.<br>• Defnyddio geiriau unigol yn aml yn hytrach na chwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnydd cyfyngedig iawn o ymadroddion Cymraeg.<br>• Ffurfiau berfol anghywir yn aml.<br>• Iaith elfennol iawn.<br>• Ynganu'n aneglur fel arfer. | 3-4 |
| 0-2 | • Anhawster i holi, ateb, mynegi barn, rhesymu, ymateb a chyd-adweithio ag eraill.<br>• Cyfraniad cyfyngedig i'r drafodaeth. | • Ymdrech i gyfathrebu'n ddealladwy ar brydiau'n unig.<br>• Geirfa gyfyng a syml iawn. | 0-2 |

**AA2**

**Darllen – CYNNWYS**

| **Marc** | |
|---|---|
| 8 | • Yn gallu dethol a chyflwyno'r holl bwyntiau yn synhwyrol<br>• Dangos dealltwriaeth gyflawn o'r holl ddarnau darllen |
| 6 - 7 | • Yn gallu dethol a chyflwyno'r mwyafrif o'r pwyntiau'n synhwyrol<br>• Dangos dealltwriaeth gweddol gyflawn o'r holl ddarnau darllen |
| 5 | • Yn gallu dethol a chyflwyno rhai o'r prif bwyntiau (Uwch)<br>• Yn gallu dethol a chyflwyno'r mwyafrif o'r pwyntiau (Sylfaenol)<br>• Dangos dealltwriaeth gyflawn o ddarn darllen C ac ambell bwynt o'r ddau arall (Uwch)<br>• Dangos dealltwriaeth gyflawn o'r holl ddarnau darllen (Sylfaenol) |
| 3 – 4 | • Yn gallu dethol a chyflwyno nifer o bwyntiau syml yn y darn darllen sylfaenol<br>• Dangos peth dealltwriaeth o'r pwyntiau mwyaf syml |
| 1 – 2 | • Yn gallu dethol a chyflwyno rhai pwyntiau syml yn y darn darllen sylfaenol<br>• Dangos peth dealltwriaeth o'r pwyntiau symlaf |

**MYNEGIANT**

Hyd at 2 farc am gyfathrebu'n ystyrlon.